# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Diogel a Lles Iechyd** |
| **Aelod Cabinet:** | ***Cynghorydd Menna Jones*** |
| **Swyddog perthnasol:** | ***Ian Jones*** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10fed Hydref 2023** |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

*Mae'r adroddiad hon ger bron y Cabinet gan fod angen i aelodau'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r materion a amlinellir er mwyn cael trosolwg strategol o'r sefyllfa gyfredol at ddibenion rheoli iechyd diogelwch a llesiant yn effeithiol. Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad i gofnodi eu bod yn datgan eu bodlonrwydd a'r adroddiad.*

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

*Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad i gofnodi eu bod yn datgan eu bodlonrwydd a'r adroddiad.*

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg


*Bwriad yr adroddiad yma yw amlinellu y prif faterion a gododd yn y maes iechyd, diogelwch a llesiant yn ystod y flwyddyn dan sylw.*

Mae effaith dwy flynedd o ganllawiau'r Llywodraeth ar COVID ac ôl effaith hynny ar lesiant staff yn parhau i fod yn effeithio yn sylweddol ar agenda Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Gyda Gwasanaethau'n ailsefydlu eu hunain i'r normal newydd, a staff yn mynd drwy gyfnod pontio rhwng gweithio hybrid o fewn y swyddfeydd a gartref, bu angen cefnogi rheolwyr/arweinwyr tîm wrth addasu'r cam hwn.


Wedi cymaint o newid fodd bynnag, mae'n gyfle i ail ystyried ac ail ddiffinio ble rydym arni fel Cyngor ac yn hynny o beth, mae adolygiad strategol ar Iechyd a Diogelwch yn gynllun blaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor.

### Ffigyrau damweiniau

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r holl ddigwyddiadau a adroddwyd i'r Gwasanaeth Diogelwch a Lles Iechyd ynghyd â faint o rhain oedd yn ddigwyddiad oedd yn adroddiadwy o dan Reolwiadau RIDDOR (2015/16 i 2022/23). Dyma'r digwyddiadau mwyaf difrifol sydd wedi digwydd yn fewnol yn ymwneud â staff y Cyngor, neu ble fo aelodau'r cyhoedd wedi cael eu hanafu ar safle'r Cyngor, a oedd yn gofyn am adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Y llynedd, diddymwyd elfen o reoliadau RIDDOR oedd yn ei gwneud yn ofyniad i adrodd achosion o staff yn dal COVID yn y gwaith (neu lle roedd sail resymol i gredu), a dyna'r rheswm dros y cynnydd sylweddol yn y ffigyrau ar gyfer 2020/21 a 2021/2022.




Nifer y damweiniau / digwyddiadau a bron â cholli adroddwyd ynghyd â RIDDOR





Digwyddiadau a adroddwyd gan RIDDOR 2015-2023

Ni adroddwyd am unrhyw RIDDORS yn ymwneud â Covid y llynedd. Er bod angen adrodd yn ystod y pandemig am ddigwyddiadau lle gallai fod yn rhesymol y gallai gweithwyr fod wedi heintio cyflogai arall neu ddefnyddwyr gwasanaeth â'r coronafeirws trwy drosglwyddiad cyffredinol yn y gweithle, mae hyn bellach wedi'i dynnu'n ôl gan yr HSE. Felly, nid yw unrhyw bersonau, boed yn staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth/cyhoedd yn cael eu hadrodd.

Nid oes unrhyw un duedd i adrodd arno fel y rheswm am y cynnydd, ac eithrio nodi bod y patrwm sydd wedi bodoli yn gorfforaethol, ac yn genedlaethol ers blynyddoedd lawer yn parhau, sef mai symud a thrin, a llithro a baglu yw'r ddau brif achos dros ddamweiniau. Mae'r digwyddiadau sy'n cael eu categoreiddio fel rhai 'eraill' yn amrywio o ymosodiadau corfforol yn erbyn staff, i gyflyrau iechyd sydd wedi'u hachosi gan y gwaith, i ddamweiniau cerbydau.

Mae'r siart isod yn amlinellu nifer yr achosion RIDDOR sydd wedi cael eu hadrodd i'r HSE dros y 5 mlynedd diwethaf.




Dylid nodi bod gwaith dwys yn parhau i fynd i'r afael ac anafiadau symud a thrin, yn benodol felly lle mae cyfraddau absenoldeb yn uwch oherwydd anafiadau symud a thrin, megis y Gwasanaeth Gwastraff. Datblygwyd modiwlau e-ddysgu mewnol ac fe'u rhennir â staff o bob Adran i gefnogi ac atgyfnerthu gwaith yr Hyfforddwr Trin â llaw y mae galw mawr amdano am ei hamser ac mae'n gorfod blaenoriaethu ei gwaith.

**Gorfodi a chydymffurfio**

Yn ystod y chwe mis diwethaf, rydym wedi cael dau ymweliad gan yr asiantaeth orfodi ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) sy'n gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch yn genedlaethol. . Roedd y ddau ymweliad oherwydd dau ymgyrch cendelaethol gan AGID, un oherwydd y cynnydd mewn damweiniau yn y diwydiant gwastraff ,a'r llall ynghylch rheolaeth asbestos asbestos yn eu hadeiladau, ac o fewn ysgolion yn benodol.

Ddechrau'r flwyddyn ymwelodd yr arolygwyr â dwy ysgol, Ysgol Y Moelwyn ym Mlaenau Ffestiniog ac Ysgol Dolbadarn yn Llanberis. Aeth yr archwiliadau'n dda ac er i'r Arolygwyr nodi fod gan y Cyngor weithdrefnau cadarn i reoli asbestos, fe wnaethant ysgrifennu at yr awdurdod gyda rhai argymhellion bychan. Oherwydd hyn derbyniodd y Cyngor ffi ymyrraeth o tua £600.

Ym mis Mawrth, galodd Arolygwyr yn ddirybudd i safle Coed Ffridd Arw yn Nolgellau gan archwilio'r safle a chyfweld â'r staff oedd yn bresennol. Gofynnon nhw hefyd am wybodaeth ysgrifenedig fel asesiadau risg, systemau gwaith diogel a chofnodion hyfforddi. Y tro hwn roedd yr arolygwyr yn hapus gyda'r ymweliad, fe wnaethon nhw argymell  manion ar lafar yn unig ac mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi dechrau eu rhoi ar waith. Nid oedd angen gweithredu ymhellach.

**Rhaglen waith**

Mae COVID wedi cael effaith sylweddol ar raglen waith y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant am y drydedd flwyddyn yn olynol wrth i ganllawiau'r Llywodraeth ar gyfer gweitheloedd newid yn gyson yn ystod y blynyddoedd flaenorol, yn ogystal â rhoi sylw i ôl-groniad gwaith sylweddol.  Eleni mae'r galw wedi bod yn delio â'r normal newydd, gydag adrannau'n addasu gwasanaethau yn unol â hynny ac angen cyngor

cymwys mewn iechyd a diogelwch wrth wneud hynny. Un o'r prif ffocws fu'r angen i sicrhau bod gweithwyr yn gweithio'n ddiogel gartref gan fod gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd gofal o hyd i sicrhau bod y gweithfannau yn cydymffurfio â'r safonau cyfreithiol. Anfonwyd holiaduron at 2063 o weithwyr yn gofyn am wybodaeth am y gweithfannau. Ymatebodd 73% o'r gweithlu, o'r rhain, roedd angen asesiad pellach ar 239 gan yr Uned Iechyd a Diogelwch e.e. oherwydd eu bod yn profi poen neu anghysur wrth ddefnyddio eu gweithfan.

Cynhaliwyd cwrs Arwain yn Ddiogel IOSH ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli ar ddechrau 2023. Roedd trafodaethau yn ystod y cwrs yn dangos mai'r cyfeiriad yr hoffai'r tîm fynd gydag iechyd, diogelwch a lles oedd anelu ato ar y lefel integredig ar draws Cyngor Gwynedd. Y lefel integredig yw'r hyn a nodwyd gan IOSH fel safon i'w chyflawni ar draws y diwydiant lle mae iechyd, diogelwch a lles wedi'u hintegreiddio i bob agwedd o’r Cyngor. O'r wybodaeth hon rydym ar hyn o bryd yn cynnal dadansoddiad o’r union gamau sydd angen eu cymryd gyda'r bwriad o drafod hyn gyda'r Pennaeth Adran fel y gellir creu rhaglen waith a dyma fydd prif ffocws y gwaith prosiect blaenoriaeth.

Mae gwaith i adolygu'r systemau electroneg iechyd, diogelwch a lles wedi dechrau pan ystyriwyd dau gwmni allanol ac ystyriwyd creu system gan ddefnyddio ein harbenigwyr mewnol. Mae'r gwaith hwn yn parhau gyda'r bwriad o allu rhannu'r ddau opsiwn a'u dangos i'r adrannau yn fuan iawn.

Un gofyn er mwyn cyrraedd model uwch o reolaeth iechyd a diogelwch yw fod pob Rheolwr yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch addas a digonol. I’r perwyl yma, mae cwrs Rheoli'n Ddiogel yn fewnol IOSH fod ar gael i bob rheolwr sy'n rheoli pobl, safle neu brosiectau yng Nghyngor Gwynedd. Yn dilyn cwrs 3 diwrnod cychwynnol mae disgwyl i'r rheolwr fynychu cwrs undydd bob tair blynedd. Yn ystod cyfnod COVID ni gynhaliwyd y cyrsiau hyn, penderfynwyd ei bod yn bwysig ceisio dal i fyny â'r hyfforddiant hwn. Yn 2019 cynhaliodd y gwasanaeth 30 diwrnod o hyfforddiant ar gyrsiau IOSH, targed y tîm eleni yw 53 diwrnod.

Yn ogystal â rhedeg mwy o gyrsiau, cynhaliodd y tîm iechyd, diogelwch a lles ddadansoddiad bwlch o'r rheolwyr ym mhob gwasanaeth a oedd wedi neu a oedd angen mynychu cwrs Rheoli'n ddiogel IOSH neu gwrs Gloywi IOSH. Mae'r wybodaeth hon wedi'i hanfon at benaethiaid y gwasanaeth.

Mae'r tîm Iechyd, Diogelwch a Lles wedi parhau i gynnal arolygiadau o fewn adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac YGC drwy bandemig Covid-19 oherwydd eu bod wedi eu harchredu i safon ISO 45001 a fod gynion caeth ar amlder archwiliadau ar gan yr achrediad hynny. Gohiriwyd pob arolygiad arall yn ystod y cyfnod hwn oherwydd faint o waith a greodd y pandemig i'r tîm. Mae'r tîm yn bwriadu gweithio ar y rhaglen ar gyfer archwiliadau mewnol yn y dyfodol a chychwyn y rhain cyn gynted ag y bydd adnoddau ar gael.

Parhaodd y cyfarfodydd a sefydlwyd ym mlwyddyn gyntaf y Pandemig rhwng y cyflogwr a'r Undebau Llafur eleni a nawr mae trafodaeth agored am ystod o faterion iechyd a diogelwch. Mae hwn wedi bod yn un datblygiad cadarnhaol iawn ers COVID ac mae trafodaethau wedi bod yn adeiladol a ffrwythlon.

**Achrediad IOS 45001 gan BSi**

Oherwydd y newid yn adrannau Cyngor Gwynedd, sef y broses o gasglu/rheoli gwastraff yn symud i'r Adran Amgylcheddol ac YGC a'r Priffyrdd a'r Adran yn uno bu

newid i safon ISO 45001. Roedd YGC a'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol flaenorol yn cynnal y safonau 45001 (Iechyd a Diogelwch), 14001 (Amgylcheddol) a 9001 (Rheoli Ansawdd). Ers y newidiadau mae'r gwasanaethau gwastraff sydd wedi symud i'r Adran Amgylcheddol wedi penderfynu creu system reoli iechyd adiogelwch mewnol yn hytrach na pharhau gyda achrediad ISO. Mae'r Priffyrdd a'r YGC yn parhau ar hyn o bryd i ddilyn y systemau ar wahân ond maent wrthi'n uno'r holl systemau ar draws yr adran gyfan.

**Iechyd Galwedigaethol**

Mae'r tîm Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn ganolog i gefnogi gweithlu bregus y Sir drwy gydol y pandemig. Erbyn hyn, mae'r Uned wedi adfer ei rhaglen waith yn llawn ac wedi ailgychwyn y rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd ar ôl i HSE roi stop ar y rhaglen yn genedlaethol yn ystod pandemig COVID.

Mae’r profion hyn yn ofyniad cyfreithiol i staff eu cynnal os ydynt yn agored i risgiau iechyd yn y gwaith e.e. profion clyw / anadl neu ddirgryniad. Mae'r tîm yn gweithio gyda'r holl Adrannau i gynnal gwiriadau Gwyliadwriaeth Iechyd ar draws tair ardal Cyngor Gwynedd yn dilyn llwyddiant i gael bwth i ardal Dwyfor fel y gellir cynnal profion clyw yno. Mae hyn yn ychwanegol at y bythau yn Nolgellau a Chaernarfon sydd eisoes yn eu lle


Mae'r gefnogaeth llesiant i staff wedi parhau, a'r flwyddyn ddiwethaf sydd wedi gweld lefelau uchel o gyfeiriadau i'r Gwasanaeth Ffisiotherapi a'r Gwasanaeth Cwnsela Medra. Mae'r adolygiad o’r gytundeb ar gyfer y Gwasanaeth ffisiotherapi yn mynd rhagddo.

Mae gwaith ar y gweill, yn dilyn y cyfnod covid, i ail-ddechrau gwaith mwy rhagweithiol yn y maes iechyd meddwl yn benodol, mae'r gwasanaeth wedi cydnabod yr angen i hyfforddi pob rheolwr ar y cwrs iAct. Nod y cwrs hwn yw grymuso rheolwyr i gefnogi lles meddyliol eu staff, a chefnogi gweithwyr lle maent yn mynd trwy gyfnod o broblemau iechyd meddwl. Ers mis Ionawr i fis Mehefin 2023, mae 93 o reolwyr ac arweinyddion tim wedi'u hyfforddi yn y cwrs hwn.

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cyfeiriadau at yr Uned dros y pum mlynedd diwethaf. Fel y dangosir yn y graff, mae cynnydd amlwg mewn cyfeiriadau ym misoedd Tachwedd 2022, Ionawr 2023 a Mawrth 2023.

Mae Iechyd Meddwl a Chyhyrysgerbydol yn parhau i fod yn brif achos absenoldebau salwch o fewn Cyngor Gwynedd, gyda chynnydd mewn iechyd meddwl dros y blynyddoedd:

- Cyfeiriwyd 639 o staff yn ystod 2022/23 i gymharu â 555 yn ystod 2021/22
- O’r 639 sydd wedi’u cyfeirio, mae 238 o’r rheini yn gyfeiriadau iechyd meddwl, sydd wedi cynyddu o gymharu â ffigwr 2021/22 sef 219.




## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad yn cyfleu gwybodaeth i'r Cabinet a nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

### 4.2 Swyddog Monitro

Sylwadau ar y Penderfyniad a Geisir a'r Rheswm am y Penderfyniad

*Mae gofyn cael cofnod fod y Cabinet yn datgan eu bodlonrwydd a'r adroddiad*

**Rhestr Atodiadau**

**Rhestr Dogfennau Cefndir**